Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sicrhau asesiadau athrawon – rhaglen wirio allanol

Adroddiad ar y rhaglen

## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 183/2016
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2016

# Sicrhau asesiadau athrawon – rhaglen wirio allanol

## Adroddiad ar y rhaglen

**Cynulleidfa**
Penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd a phenaethiaid adrannau mewn ysgolion a gynhelir; cydlynwyr asesu ysgolion uwchradd ac athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, cyrff llywodraethu ysgolion prif ffrwd; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg**
Mae'r cyhoeddiad hwn yn adroddiad ar ganlyniadau 2014–2015 y rhaglen wirio allanol, a gynlluniwyd i wella cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon drwy adborth o ansawdd uchel i'r holl randdeiliaid allweddol.

**Camau i'w cymryd**
Mae athrawon, penaethiaid a phob rhanddeiliad allweddol yn cael eu hannog i ymgyfarwyddo â chanfyddiadau ac argymhellion blwyddyn gyntaf y rhaglen wirio allanol.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Asesu
Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3222
e-bost: Assessment@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig**
*Rhaglen wirio allanol genedlaethol: Cwestiynau cyffredin* (Llywodraeth Cymru, 2016); *Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder* (Llywodraeth Cymru, 2015)

Education Achievement Service for South East Wales / Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru — GwE Tuag at Ragoriaeth / Towards Excellence — Central South Consortium / Consortiwm Canolbarth y De — Joint Education Service / Gwasanaeth Addysg ar y Cyd — ERW Ein Rhanbarth ar Waith / Education through Regional Working — Association of Directors of Education in Wales / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru — cdsm

© Hawlfraint y Goron 2016 WG28180 ISBN digidol 978 1 4734 6036 2

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Y rhaglen 2

Neilltuo gwirwyr 2

Crynodeb o’r ymweliadau 3

Canfyddiadau 3

Camau gweithredu ac argymhellion 4

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion i atgyfnerthu trefniadau asesu athrawon (*Asesiadau athrawon: atgyfnerthu trefniadau i wella dibynadwyedd, cysondeb a hyder*) rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mawrth 2015. Roedd y cynigion yn cynnwys atgyfnerthu gwaith cymedroli clystyrau a chyflwyno rhaglen wirio allanol.

Un o ganlyniadau allweddol yr ymgynghoriad hwn oedd cyhoeddi rhaglen genedlaethol, i ddechrau yn ystod haf 2015, er mwyn cynnal dilysiad allanol o fathemateg a gwyddoniaeth ym Mlwyddyn 1, gyda'r pwyslais yn newid ym Mlwyddyn 2 i Saesneg/Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; a Chymraeg/Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Dyfarnwyd y contract ar gyfer rheoli'r broses wirio i bartneriaeth yn cynnwys y pedwar consortiwm rhanbarthol a CDSM Interactive Solutions. Cafodd y rhaglen ei rheoli a'i gweithredu gan y 'Bartneriaeth' mewn cydweithrediad ag arweinwyr ysgolion ac arbenigwyr pwnc. Sefydlwyd y Bartneriaeth gyda chefnogaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

Prif bwyslais y rhaglen oedd atgyfnerthu cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon trwy ddarparu adborth o ansawdd uchel i athrawon, penaethiaid a phob rhanddeiliad allweddol.

## Y rhaglen

Cyflawnwyd nifer o dasgau allweddol, sef:

- datblygu prosesau a gweithdrefnau cyffredin ar gyfer y broses wirio, gan gynnwys templedi cyffredin i'w defnyddio gan bob gwiriwr a gwirwyr arweiniol
- darparu rhaglen hyfforddi gyson i bob gwiriwr arweiniol a gwirwyr yng Nghymru
- datblygu a rhoi ar waith fethodoleg ar gyfer samplu ysgolion, er mwyn cynnal ymweliadau â 10 y cant o ysgolion Cymru
- darparu gwybodaeth allweddol i ysgolion dethol am y broses ac am yr ymweliad â'r ysgol
- datblygu proses genedlaethol i ymdrin ag unrhyw achosion o anghytuno â dyfarniadau
- darparu'r holl ddeunydd ac adnoddau'n ddwyieithog.

## Neilltuo gwirwyr

Penododd pob consortiwm gwiriwr arweiniol i fod yn gyfrifol am dîm o wirwyr ac i oruchwylio'r broses wirio yn un o'r ardaloedd nad oedd yn ardal eu consortiwm rhanbarthol eu hunain.

- Gwiriwr arweiniol CSC, o EAS.
- Gwiriwr arweiniol EAS o CSC.

- Gwiriwr arweiniol ERW o GwE.
- Gwiriwr arweiniol GwE o ERW.

Roedd y rhan fwyaf o’r gwirwyr yn benaethiaid/arweinwyr pwnc oedd yn gweithio mewn ysgolion yng nghonsortiwm rhanbarthol y gwiriwr arweiniol. Er mwyn atgyfnerthu hygrededd y rhaglen, cynhaliodd aelodau'r tîm gyfran o'u hymweliadau mewn consortiwm rhanbarthol ar wahân i’w consortiwm rhanbarthol eu hunain a’r prif gonsortiwm y cawsant ei neilltuo iddo.

## Crynodeb o'r ymweliadau

Anfonwyd cyfanswm o 55 o wirwyr i 149 o ysgolion. O'r ysgolion hyn roedd:

- 71 yn lleoliadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Saesneg
- 35 yn lleoliadau Cyfnod Allweddol 2 cyfrwng Cymraeg
- 28 yn lleoliadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Saesneg
- 15 yn lleoliadau Cyfnod Allweddol 3 cyfrwng Cymraeg.

Yn yr ysgolion cynradd, canolbwyntiodd y gwaith gwirio ar fathemateg a gwyddoniaeth. Dewiswyd ysgolion uwchradd ar gyfer mathemateg (22) neu wyddoniaeth (21).

Fel rhan o’r rhaglen roedd yn ofynnol i wirwyr edrych ar broffiliau dysgwyr a oedd wedi’u cyflwyno i ddigwyddiadau cymedroli yn y clwstwr, ac ar waith dysgwyr a ddewiswyd ar hap.

## Canfyddiadau

Roedd y gwirwyr yn cytuno â dyfarniadau'r ysgolion mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth i’w weld rhwng y naill gyfnod allweddol a’r llall a rhwng gwahanol bynciau. Fe wnaethon nhw ganfod hefyd fod ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi asesiadau athrawon yn amrywio. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd gwaith dysgwyr yn cynrychioli'r cwricwlwm llawn ac roedd asesiad yr athro’n ddigon manwl i gefnogi'r lefelau a ddyfarnwyd. Fodd bynnag, wrth edrych ar waith rhyw ychydig o ddysgwyr, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, nid oedd tystiolaeth ddigonol i'r gwiriwr allu cytuno ar y lefel.

### Cymedroli o fewn ysgolion

Roedd mwyafrif yr ysgolion a gynhwyswyd yn y sampl wedi hen arfer cymedroli a safoni ar lefel ysgol unigol. Er hynny, mewn lleiafrif o ysgolion, roedd rhy ychydig o amser yn cael ei neilltuo i’r broses gymedroli fewnol. Mewn rhyw ychydig iawn o ysgolion, ni chynhyrchwyd proffiliau dysgwyr eleni ac ni chynhaliwyd unrhyw waith cymedroli ar lefel ysgol.

Lle cafwyd proffiliau dysgwyr, roedd y rhan fwyaf yn cynnwys digon o dystiolaeth fel ei bod yn bosibl gwneud dyfarniad ynghylch y lefel a roddwyd. Fodd bynnag, mewn

ambell ysgol nid oedd digon o dystiolaeth ym mhroffiliau’r dysgwyr i fod yn sail i ddyfarniad pendant. Roedd y gwaith a gyflwynwyd yn rhy gul ac nid oedd yn cynnwys digon o ddeunydd amrywiol i gynnig tystiolaeth pam y dyfarnwyd lefel.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion bach yn cydweithio er mwyn gwella eu harferion asesu. Fodd bynnag, dywedodd rhai athrawon Blwyddyn 6 mewn ysgolion bach y byddai’n fuddiol iddynt gael cyfle i drafod safonau cyrhaeddiad a gosod lefelau gwaith â chydweithwyr eraill cyn cymedroli mewn clwstwr.

### Cymedroli yn y clystyrau

Roedd bron pob un o'r ysgolion a samplwyd wedi cymryd rhan mewn gwaith cymedroli clystyrau ar ddiwedd cyfnod allweddol. I'r mwyafrif, roedd hwn yn arfer a oedd wedi ei hen sefydlu yn y rhan fwyaf o bynciau. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau o ran y ffyrdd yr oedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu a’u rheoli.

Er bod lefelau presenoldeb yn uchel at ei gilydd, gallai hyn amrywio yn ôl y pwnc oedd yn cael ei gymedroli. Nid oedd pennaeth neu uwch arweinydd perthnasol yn bresennol ym mhob cyfarfod clwstwr.

Canfuwyd anghysonderau yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ysgolion at ddibenion cymedroli mewn digwyddiadau clwstwr. Roedd llawer o ysgolion yn dal i fod yn aneglur ynghylch cyfanswm ac ystod y gwaith sy’n ofynnol ar gyfer y broses gymedroli. Nid oedd sylwadau athrawon bob amser yn cynnig anodiadau digonol i gefnogi'r lefel a ddyfarnwyd.

Nid oedd canlyniadau gwaith cymedroli clystyrau bob amser yn cael eu bwydo yn ôl yn gyson i'r ysgolion a'r awdurdodau lleol, yn enwedig lle y gallasai hyn fod ag oblygiadau ar gyfer gweithdrefnau cymedroli mewnol yr ysgol.

Roedd presenoldeb swyddogion o'r consortiwm neu'r awdurdod lleol yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i'r clwstwr mewn llawer o ardaloedd, yn enwedig pan oedd gan swyddogion arbenigedd perthnasol i’r pynciau dan sylw. Fodd bynnag, nid oes ganddynt rôl ffurfiol fel rhan o’r broses.

## Camau gweithredu ac argymhellion

### Camau a gymerwyd

Roedd gwersi pwysig i’w dysgu oddi wrth Flwyddyn 1 y rhaglen. Cafodd y rhain eu defnyddio er mwyn datblygu’r rhaglen wirio ymhellach ar gyfer Blwyddyn 2 2015–16.

Yn yr adroddiad drafft cyntaf (Gorffennaf 2015) tynnwyd sylw at dasgau yr oedd angen i’r consortia rhanbarthol eu gwneud, yn ystod tymor yr hydref 2015, i’w galluogi i gynnig cefnogaeth gyson i’w hysgolion a’u clystyrau, i atgyfnerthu a datblygu trefniadau asesu athrawon. Roedd angen:

- rhoi sylw i hanfodion asesiadau athrawon, gan gynnwys y dystiolaeth sy’n ofynnol i gefnogi dyfarniadau sy’n cyd-fynd orau
- datblygu deunyddiau enghreifftiol i gefnogi asesiadau athrawon

- darparu canllawiau mwy manwl a chyson i egluro sut i drefnu a chyflawni gwaith cymedroli effeithiol mewn clystyrau
  (Fe roddwyd sylw i'r gwaith hwn ac fe gynhyrchwyd deunyddiau sydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ariannwyd y gwaith drwy'r rhaglen hon. Bydd y deunyddiau'n cael eu dosbarthu i'r ysgolion a'u defnyddio i atgyfnerthu'r trefniadau rhanbarthol.)
- fel rhan o'r contract roedd yn ofynnol i'r rhaglen roi adborth i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Cwblhawyd hynny ar ffurf adroddiad cryno lle tynnir sylw at y canfyddiadau allweddol. Dosbarthwyd yr adroddiad gan y consortia rhanbarthol i bob ysgol a rhoddodd tîm y rhaglen gopïau i brif undebau'r prifathrawon, yr athrawon a'r staff cymorth
- mae'r prosesau cynllunio ar gyfer 2015/16 wedi cael eu hadolygu ac fel rhan o'r gwaith hwn paratowyd amserlen fanwl, calendr digwyddiadau a dyddiadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bwysig ag ysgolion.

## Argymhellion

### Y rhaglen

Bydd angen cynnwys yr argymhellion a ganlyn yng nghynllun rhaglen 2015/16, yn benodol i:

- adolygu'r rhaglen hyfforddi ar gyfer gwirwyr er mwyn diffinio cwmpas a chynnwys y rhaglen yn gliriach
- datblygu'r system ar-lein er mwyn sicrhau ei bod yn helpu gyda'r gwaith o weinyddu'r rhaglen, yn rhoi trefn ar lif gwaith gwirwyr ac yn cynnwys offerynnau cadarn ar gyfer adrodd ar ddata
- atgyfnerthu'r prosesau sicrhau ansawdd ym mhob lefel o'r cynllun, fel y gellir cael mwy o hyder fod pob dyfarniad a wneir yn gywir
- cydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn mireinio ymhellach y fethodoleg ar gyfer samplu ysgolion, i sicrhau bod ysgolion yn cael eu targedu'n well.

### Consortia rhanbarthol

- Defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i oleuo'r rhaglen ddatblygiad proffesiynol y byddant yn ei darparu, er mwyn cefnogi asesiadau athrawon yn eu rhanbarth.
- Defnyddio dogfennaeth y rhaglen wrth recriwtio gwirwyr, er mwyn cyfleu yn glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r gwirwyr a beth yw'r ymrwymiad amser a'r trefniadau ariannol.

### Llywodraeth Cymru

Dylid parhau i godi proffil asesu fel y bydd:

- pob rhanddeiliad allweddol yn rhoi blaenoriaeth uchel i asesu
- asesu yn rhan anhepgor o hyfforddiant a datblygiad y rhai sy'n newydd i'r proffesiwn.